

TUDALEN 64

Cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd o bell, trwy fideo-gynadledda Zoom, am 6.30pm nos Lun, 14 Chwefror 2022 .

YN BRESENNOL: - Cynghorydd Mair Rowlands (Cadeirydd), Cynghorwyr Medwyn Hughes, Huw Wyn Jones, John Wyn Jones, Kieran Jones, Enid Parry, Dylan Fernley (heb bleidlais)

Swyddogion:- Martin Hanks (Clerc y Dref dros dro), Paul Rowlinson (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

240/22 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Elin Walker Jones, Nigel Pickavance, Luke Tugwell.

241/22 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

242/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

243/22 TRAFOD GLANHAU STRYDOEDD YM MANGOR

Roedd yr aelodau'n teimlo fod golwg Canol Dinas Bangor yn hollbwysig i'r gobaith o adfywio Bangor a bod glanhau'r strydoedd a thorri gwair yn bwysig iawn yn hyn o beth. Roedd sawl cynllun ar gyfer glanhau strydoedd wedi cael eu cynnig yn y gorffennol, yn cynnwys cynllun ar y cyd rhwng Cyngor y Ddinas, y Brifysgol, Cyngor Gwynedd ac un o'r cymdeithasau tai. Nid oedd hi'n glir faint o gynnydd a wnaed.

PENDERFYNWYD

- (i) Clerc y Dref i wneud ymholiadau i weld pa gynlluniau y cytunwyd arnynt, ond parhau i fynd ar ôl y syniad o gael glanhawr penodol i Fangor;
- (ii) Roedd y Cyngor eisoes wedi rhoi swm o arian yn y gyllideb ar gyfer torri gwair a thacluso llwybrau. Dywedodd Clerc y Dref y dylid gweithredu ar hyn fel bod cynllun yn ei le erbyn y Gwanwyn. Cytunwyd y byddai Clerc y Dref yn arwain ar hyn, ac yn dod ac enwau cwmnïau a dyfynbrisiau i'r cyfarfod nesaf.

244/22 DERBYN DIWEDDARIAD AR FAES PARCIO'R PIER

Mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed ar 7 Chwefror, roedd Clerc y Dref wedi trefnu i bensaer tirwedd ymweld â'r Pier y prynhawn hwnnw. Yn anffodus, gohiriwyd y cyfarfod. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod yr arolygydd RoSPA gwreiddiol wedi gadael erbyn hyn ac felly bydd angen trefnu archwiliad arall er mwyn cael adroddiad manwl. O ystyried fod yr offer chwarae wedi bod yno ers canol yr 1980au, awgrym RoSPA oedd ei bod yn ymddangos fod yr offer yn dod i ddiwedd ei oes.

PENDERFYNWYD

- (i) Fod Clerc y Dref yn trefnu cyfarfod arall gydag arolygydd RoSPA a chael atebion pendant am amcan oes yr offer.
- (ii) Ail-drefnu gyda'r pensaer tirwedd a hefyd gofyn am farn gan ymarferwyr eraill.

TUDALEN 65

245/22 DERBYN DIWEDDARIAD AR GAIS GRANT CREU LLEOEDD LLYWODRAETH CYMRU

Oherwydd yr amser a gymerwyd i baratoi'r cais grant, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr holl arian o dan y cynllun hwn wedi'i ddyrannu bellach. Ond gallai'r gwaith a wnaed fod yn sail ar gyfer cyflwyno cais eto y flwyddyn nesaf.

PENDERFYNWYD fod y Cyng H W Jones yn cysylltu â Chyngor Gwynedd am gyflwr y Stryd Fawr.

246/22 TRAFOD STRATEGAETH CYNNAL A CHADW AR GYFER MEYSYDD CHWARAE A LLWYBRAU CYHOEDDUS YM MANGOR

Yn dilyn y ffaith fod y Cyngor wedi cymeradwyo cyllid yn y gyllideb ar gyfer cynnal a chadw meysydd chwarae'r Ddinas, ar ben y gwaith a wneir gan Gyngor Gwynedd, gofynnwyd i'r Pwyllgor awdurdodi'r Clerc i baratoi opsiynau i'r Cyngor.

PENDERFYNWYD: Clerc y Dref i baratoi rhestr ar gyfer y prosiect, gyda chostau.

247/22 ANFONEBAU I'W TALU

Cymeradwywyd talu'r anfonebau.

Mewn ymateb i gwestiwn am y swm a delir am gymorth TG, eglurodd Clerc y Dref fod y gost hon yn cynnwys sawl eitem, gan gynnwys galluogi'r Aelodau i gael cyfrifon e-bost Cyngor Dinas Bangor ynghyd â mynediad i Microsoft Office, a chefnogaeth TG diderfyn. Mae'n ymddangos nad yw pob Aelod yn defnyddio'u cyfrifon e-bost Cyngor y Ddinas, sy'n golygu na fyddent yn derbyn e-byst a anfonir gan eu hetholwyr, ac roedd goblygiadau GDPR ynghlwm hefyd.

248/22 EITEMAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

Nid oedd cyfarfod o'r Pwyllgor hwn wedi'i drefnu tan ar ôl mis Mai. Fodd bynnag, gan fod angen delio â nifer o faterion ymarferol, cynigiwyd galw cyfarfod arall cyn hynny.

Roedd angen sylw ar y manylion canlynol:

- a) Diweddariad ar faes chwarae'r pier.
- b) Diweddariad ar lanhau strydoedd a thorri gwair.
- c) Diweddariad gan y Bartneriaeth Strategol. Cynigiwyd fod Cyng J W Jones yn rhoi diweddariad i'r Cyngor newydd (wedi mis Mai) ar waith y Bartneriaeth hon.
- d) Derbyng diweddariad gan is-bwyllgor Nantporth.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35pm

ACTING TOWN CLERK – Martin Hanks – CLERC Y DREF DROS DRO